# Criw Celf

## Canllaw gwerthuso a phecyn cymorth



Ionawr 2016

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Criw Celf



## Cynnwys


1. Rhagymadrodd 2

2. Beth yw ffocws y gwerthusiad? 3

3. Pwy ddylai fod yn rhan o'r gwerthusiad? 6

4. Pryd? Cynllunio ar gyfer monitor a gwerthuso 7

5 Sut? Yr offer monitor a gwerthuso 9

5.1 Casglu allbynnau prosiect cyfan 9

5.2 Y cyfranogwyr ifanc 10

5.2.1 Cymariaethau ar ddechrau a diwedd y rhaglen 10

5.5.5 Myfyrdodau ar ddiwedd y cwrs 10

5.2.3 Camau dilynol wedi cyfranogaeth yn y rhaglen gyntaf 10

5.3 Adborth a mewnbwn gan artistiaid 11

5.4 Adborth a mewnbwn gan athrawon 11

5.5 Adborth a mewnbwn gan rieni – dymunol ond dewisol 11

6. Coladu'r wybodaeth ac adrodd 12

Atodiad: Offer Adborth Gwerthuso 13


Clawr blaen: Criw Celf Gwynedd
*Ar y chwith*: Criw Celf yng Nghanolfan Grefft Rhuthun

## 1. Rhagymadrodd

Mae Criw Celf yn datblygu a meithrin talent ifanc ym maes celf weledol a chymhwysol. Mae wedi ei anelu yn anad dim at blant oed ysgol sy'n arddangos talent neu botensial ym maes celf weledol a chymhwysol. Mae Criw Celf yn cyfrannu'n rhagweithiol tuag at agenda Mwy Abl a Thalentog (MAT) Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn ffurfio rhan allweddol o strategaeth Curaduron Ifanc Cyngor Celfyddydau Cymru o ran 'Ddatblygu Talent Newydd'. Mae'r rhaglen yn mynd ati'n rhagweithiol i adnabod a meithrin pobl ifanc mwy abl a thalentog yn y celfyddydau gweledol gyda phrosiectau ar draws Cymru sy'n canolbwyntio at ddatblygu talent, drwy weithgareddau wedi eu targedu at gohort penodol o bobl sydd wedi eu dethol oherwydd eu potensial neu eu gallu.

Mae'r rhaglen yn rhoi cyfle i blant mwy abl a thalentog ddatblygu eu sgiliau artistig drwy weithio y tu allan i'r ysgol ochr yn ochr ag artistiaid proffesiynol mewn orielau amrywiol a lleoliadau safle-benodol tu allan i'r cwricwlwm. Ambell dro bydd gweithgareddau ar gyfer plant oed Cynradd yn cael eu hwyluso drwy Criw Celf Bach, rhaglen sydd mewn sawl achos yn gyfle cynnar o adnabod talent ac sy'n llwybr tuag at raglenni Criw Celf oed uwchradd.

Syniad gwreiddiol Cyngor Sir Gwynedd oedd Criw Celf i fod yn brosiect peilot i ddatblygu artistiaid ifanc, ac mae wedi tyfu'n fawr iawn oddi ar hynny. Erbyn hyn fe'i darperir ym mhob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn ogystal ag yng Nghaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Caerdydd, Casnewydd, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, a Thorfaen. Mae Criw Celf yn canolbwyntio ar bartneriaethau, gan ddwyn ynghyd partneriaid o'r awdurdod lleol, artistiaid proffesiynol, sefydliadau celf weledol ac orielau ar draws Cymru gyda phartneriaid addysg bellach ac uwch ac ysgolion. Erbyn hyn mae 70 o bartneriaid yn rhan o'r rhaglen. Yn 2014, cymerodd 525 o bobl ifanc ran mewn gweithdai a dosbarthiadau meistr dan arweiniad 94 o artistiaid.

Mae twf Criw Celf a nifer y bobl ifanc sy'n rhan ohono ar draws Cymru yn arwydd o lwyddiant y rhaglen. Mae'r adroddiadau gan bartneriaid, yr arddangosfeydd, cyhoeddiadau a ffilmiau byrion sy'n llwyfannu gwaith yr artistiaid ifanc, oll wedi dechrau adrodd y stori am effaith Criw Celf. Mae'n bwysig bod yr effaith a'r gwerth ar gyfer y bobl ifanc a phartneriaid Criw Celf ar draws Cymru yn cael eu cipio a'u rhannu mewn modd cyson ar draws yr holl ragelnni, i fod yn brawf o'r canlyniadau a'r allbynnau.

Bydd adrodd stori ddiamheuol ynghylch y newidiadau y mae Criw Celf wedi eu sbarduno, gan ategu hynny gyda thystiolaeth gref a chyson, yn helpu i ddangos gwerth strategol y rhaglen a helpu i sicrhau cyllid ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Canllaw Gwerthuso a Phecyn Cymorth yma ar gyfer Criw Celf yn cynnig ymagwedd strwythuredig tuag at fonitro a gwerthuso rhaglenni Criw Celf ar draws Cymru. Ei nod yw:

- galluogi partneriaid darparu ar draws Cymru i ddangos sut mae eu rhaglenni unigol yn cynnal datblygiad talent artistig ifanc ym maes celf weledol, a deall mwy am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sy'n llai effeithiol wrth beri newid.

- galluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i ddeall effaith a gwerth ei fuddsoddiad yn rhaglen, Criw Celf ar draws Cymru;

- galluogi pawb sydd ynghlwm â'r rhaglen i adnabod, rhannu a dysgu oddi wrth fodelau o ymarfer da, gan awgrymu cyfleoedd i'w datblygu.

Comisiynodd Cyngor Celfyddydau Cymru Tom Fleming Creative Consultancy i lunio'r canllaw a'r pecyn cymorth yma mewn ymgynghoriad gyda phartneriaid Criw Celf. Mae Tom Fleming Creative Consultancy a Chyngor Celfyddydau Cymru am ddiolch i holl bartneriaid Criw Celf a gyfrannodd eu hamser yn hael drwy gyfweliadau, digwyddiadau ymgynghori a'u sylwadau ar y drafftiau.

## 2. Beth yw ffocws y gwerthusiad?

Bydd gwerthusiad Criw Celf, gan ddefnyddio'r canllaw a'r pecyn cymorth yma, yn gyfunol (ystyried pa mor effeithiol yw'r rhaglen o ran cyflawni'r canlyniadau) a ffurfiannol (myfyrio ar y prosesau fel bo modd gwneud gwelliannau).

Y nod yw i'r gwerthusiad fod mor ysgafn ei gyffyrddiad â phosib, heb fynnu bod symiau mawrion o ddata ac adborth yn cael eu casglu. Does dim pwynt casglu data os nad oes bwriad i'w ddefnyddio a'i ddadansoddi i ateb cwestiynau penodol neu i asesu a yw canlyniadau penodol wedi eu cyflawni.

Bydd y gwaith o fonitro a gwerthuso yn casglu manylion ynghylch 'allbynnau' - nifer y gweithgareddau a'r bobl fu'n cymryd rhan, a'r 'canlyniadau' - y newidiadau a welwyd drwy'r rhaglen. Bydd y data a gesglir yn cael ei gysylltu â'r set o ganlyniadau neu newidiadau y mae Criw Celf am eu cyflawni ar gyfer y bobl ifanc. Gallwn rannu'r rhain yn ganlyniadau craidd ac eilaidd.

Mae **canlyniadau craidd** sydd wrth galon Criw Celf yn cefnogi'r agenda MAT ac yn gwahaniaethu Criw Celf oddi wrth raglenni cyfranogol mynediad agored eraill:

- Datblygu sgiliau ac ymarfer artistig pobl ifanc a adnabuwyd yn rai MAT ym maes celf weledol a chymhwysol
- Datblygu dealltwriaeth y cyfranogwyr ynghylch gyrfâu artistig
- Creu ac ymestyn partneriaethau ar draws addysg a'r celfyddydau

**Canlyniadau eilaidd:**

- Codi dyheadau (yn enwedig mewn perthynas â'r celfyddydau gweledol)
- Gwella hyder (yn enwedig mewn perthynas â'r celfyddydau gweledol)



Criw Celf yn Oriel Myrddin

Dyfeisiwyd a chytunwyd ar y canlyniadau yma gyda phartneriaid y rhaglen yn ystod y cyfnod ymgynghori a datblygu rhwng Ionawr a Medi 2015. Eu nod yw adlewyrchu, nid bod yn ychwanegiad i nodau cyflawni'r rhaglen, a gytunwyd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r partneriaid darparu, sef:

- Adnabod a meithrin talent a photensial ifanc yn y celfyddydau gweledol a chymhwysol a darparu cyfleoedd rheolaidd iddynt ddod ynghyd a gweithio gyda'u cyfoedion
- Cysylltu'n effeithiol gyda'r agenda Mwy Abl a Thalentog (MAT) mewn ysgolion, gan ategu a chefnogi gwaith yr athrawon Celf a Dylunio
- Sicrhau bod artistiaid ifanc talentog o gefndiroedd difreintiedig yn derbyn y gefnogaeth ymarferol sydd ei hangen arnynt i gyfranogi'n llawn yn sesiynau Criw Celf
- Darparu cyfleoedd eithriadol, o ansawdd uchel ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru i weithio ochr yn och ag artistiaid proffesiynol mewn ystod o gyfryngau artistig, y tu allan i leoliad yr ysgol
- Datblygu sgiliau mewn modd rhagweithiol a thracio cynnydd pob person ifanc yn y celfyddydau gweledol a chymhwysol
- Darparu gwybodaeth a chyngor ymarferol ar gyfer darpar artistiaid ifanc ar yr ystod o yrfâu sydd ar gael yn y diwydiannau creadigol
- Codi proffil gwaith pobl ifanc, gan ddarparu cyfleoedd i gyfranogwyr Criw Celf arddangos eu gwaith mewn gwagleoedd oriel proffesiynol yn ogystal ag ar-lein
- Datblygu gwaith partner enghreifftiol rhwng awdurdodau lleol, orielau a sefydliadau celf, gan rannu'r arfer gorau yn genedlaethol
- Gwerthuso'r rhaglen yn gyson o ran yr effaith ar gyfranogwyr ifanc, eu hysgolion a'u teuluoedd, y partneriaid darparu a'r agenda MAT yng Nghymru

Bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau tymor byr – newidiadau erbyn diwedd rhaglen Criw Celf unigol, a'r canlyniadau tymor canolig – newidiadau tu hwnt i fywyd rhaglen unigol. Mae'r canlyniadau neu'r effeithiau hirdymor yn anoddach i'w tystiolaethu, ond mae gennym ddiddordeb mewn archwilio potensial astudiaeth fwy hydredol (o bosib mewn partneriaeth gyda sefydliad Addysg Uwch / Ymchwil).

I gyflawni'r canlyniadau ar gyfer y bobl ifanc ac i gyrraedd y rhai mwy abl a thalentog, yn enwedig pobl ifanc o gefndiroedd mwy difreintiedig, mae adeiladu partneriaethau gydag ysgolion yn elfen hanfodol o'r rhaglen. Hefyd bydd angen gwerthuso'r partneriaethau yma a'u hestyniad at y bobl ifanc mwy difreintiedig. Un o ddangosyddion yr ymestyniad at bobl ifanc mwy difreintiedig fydd nifer y bobl ifanc sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim. Bydd adnabod cyfranogwyr o ardaloedd 'cymunedau'n gyntaf' (yn seiliedig ar god post cartref y cyfranogwyr) hefyd o gymorth i ddangos estyniad y rhaglen i'r cymunedau mwyaf difreintiedig.[1]

[1] https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Communities-First (ar gael Mai 2015)

Mae rhaglen Criw Celf a gwerthusiad o'r allbynnau a'r deilliannau yn cael eu crynhoi yn y diagram isod:

## Criw Celf: Diagramau Allbynnau a Chanlyniadau

Nod Criw Celf yw meithrin talent a photensial ifanc yn y celfyddydau gweledol a chymhwysol, drwy ddarparu cyfleoedd eithriadol o ansawdd uchel ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, i weithio ochr yn ochr ag artistiaid proffesiynol mewn ystod o gyfryngau artistig y tu allan i leoliad yr ysgol.

### Mewnbynnau

- Amser staff – awdurdodau lleol, orielau, artistiaid, ysgolion, sefydliadau Addysg Uwch/Bellach
- Adnoddau ac offer eraill
- Cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru a ffynonellau eraill
- Cefnogaeth o fath arall

### Allbynnau

#### *Gweithgareddau*

- Dosbarthiadau meistr gydag artistiaid proffesiynol
- Ymweliadau â Phrifysgolion
- Ymweliadau ag orielau/arrangosfeydd
- Ymweliadau â stiwdios artistiaid
- Arddangos gwaith pobl ifanc mewn orielau a lleoliadau eraill
- Llwyfannu gwaith pobl ifanc mewn mannau eraill, e.e. Cyhoeddiadau print, ar-lein

#### *Cyfranogiad*

- Nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn ôl oed (grwp oedran) a rhyw, yn genedlaethol, rhanbarthol, lleol.
- Cyfanswm yr oriau o ddatblygu y mae'r bobl ifanc yn eu derbyn, yn genedlaethol, rhanbarthol, lleol.
- Nifer yr ymweliadau ag orielau a stiwdios yn genedlaethol, rhanbarthol, lleol
- Nifer yr artistiaid/tiwtoriaid sy'n cymryd rhan yn genedlaethol, rhanbarthol, lleol.
- Cyfanswm oriau artistiaid yn genedlaethol, rhanbarthol, lleol
- Nifer yr arddangosfeydd cenedlaethol, rhanbarthol, lleol a nifer y bobl ifanc fu'n arddangos.
- Nifer y gweithgareddau llwyfannu eraill (gan gynnwys ar-lein) yn genedlaethol, rhanbarthol, lleol
- Nifer yr ysgolion y cysylltwyd â hwy/sy'n cyfeirio pobl ifanc yn genedlaethol, rhanbarthol, lleol

### Canlyniadau

#### Craidd

*Byr*

- Sgiliau ac ymarfer artistig pobl ifanc wedi gwella a datblygu
- Datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o yrfâu artistig
- Datblygu partneriaethau (gan gynnwys gyda mwy o ysgolion i adnabod y mwy abl a thalentog)

*Canolig*

- Pobl ifanc yn symud ymlaen i hyfforddiant / astudiaeth artistig pellach
- Mwy yn dewis TGAU Celf
- Pobl ifanc yn ennill graddau uwch mewn Celf TGAU a Lefel A
- Pobl ifanc yn cyflawni mewn meysydd eraill o'u bywyd ysgol a phersonol

*Hir*

- Pobl ifanc yn symud ymlaen i yrfâu yn y diwydiannau creadigol
- Pobl ifanc yn fwy abl i gyflawni eu potensial

#### Eilaidd

- Codi dyheadau pobl ifanc mewn perthynas â'r Celfyddydau Gweledol
- Cynyddu hyder pobl ifanc mewn perthynas â'r Celfyddydau Gweledol

#### Ffynonellau data: creadigol a rhan o'r broses nid ychwanegiad

- Gwaelodlin: gwaith a chymhwysiad y myfyrwyr
- Lluniau o sesiynau a gwaith yn ystod y cwrs
- Dyddiaduron myfyrwyr ac artistiaid arweiniol – tracio proses greadigol a theimladau
- Cyfweliadau cloi - fideo
- Cwblhau'r broses: ailadrodd ac adolygu gwaith celf

### Tybiaethau

Bydd myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhob sesiwn ac ymweliad; Bydd rhaglen o gelfyddyd weledol o ansawdd yn arwain at ganlyniadau positif.

### Ffactorau Allanol

Polisi'r celfyddydau a diwylliant ar lefel genedlaethol; Cefnogaeth/her wleidyddol leol i raglenni Criw Celf; Yr agenda Mwy Abl a Thalentog mewn ysgolion a chanfyddiadau arolygon.

## 3. Pwy ddylai fod yn rhan o'r gwerthusiad?

Mae Criw Celf yn ymwneud â llawer o wahanol bobl a mudiadau – y cyfranogwyr ifanc, yr artistiaid, sefydliadau celfyddydol, awdurdodau lleol, rhieni a mwy. Er y dylid osgoi casglu adborth er mwyn hynny'n unig, mae adborth strwythuredig gan y grwpiau yma yn hanfodol mewn rhai achosion, ac yn ddymunol mewn achosion eraill.

**Gwybodaeth gan ysgolion:** Pan fo partneriaid yn cysylltu ag ysgolion am y tro cyntaf i drafod cyflwyno ymgeiswyr ar gyfer Criw Celf, mae'n bwysig eu bod yn eglur ynglŷn â pha wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Wrth gwrs, mae gan lawer o bartneriaid darparu Criw Celf berthynas barhaus gydag ysgolion drwy'r rhaglen, ond mae'n bosib y bydd angen gofyn am rywfaint o wybodaeth ychwanegol, neu eu hysbysu y bydd angen adborth pellach ganddynt. Yr hyn sydd ei angen gan yr ysgolion:

- Os yn bosib, disgrifiad byr ar y dechrau ynglŷn â'r person ifanc – lefel eu sgil artistig, eu cymeriad, eu hyder, dyheadau a'u cyrhaeddiad mewn perthynas â chelfyddyd weledol – yn ogystal â chyrhaeddiad cyffredinol yn yr ysgol.
- Adborth gan yr athro/athrawon ar gynnydd y disgyblion unigol o ran sgiliau celf a chanlyniadau eraill (gweler y cwestiynau a awgrymir yn arolwg yr athro Offeryn 8 tudalen 16).
- Manylion ynghylch pa aelodau Criw Celf sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim neu sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

**Mewnbwn ac adborth gan gyfranogwyr ifanc Criw Celf:** Dylid casglu mewnbwn gan gyfranogwyr Criw Celf ar fynediad i'r rhaglen – o'u datganiadau cais, yn gofyn iddynt beth maent yn gobeithio'i gael o'r rhaglen; ar ddiwedd y rhaglen - drwy arolygon/cyfweliadau dilynol ac offer eraill. Hefyd dylid gofyn i'r cyfranogwyr am adborth yn ystod y rhaglen ar weithdai neu ymweliadau penodol. Bydd adborth a thrafodaeth barhaus yn helpu pobl ifanc i gyfarwyddo gydag ymarfer celf fyfyriol, ond hefyd eu hannog i feddwl am y newidiadau mae Criw Celf yn eu sbarduno ar eu cyfer hwy. Dylid ystyried sut mae'r wybodaeth a'r adborth yma i gael eu coladu a'u defnyddio.

Opsiwn o ran gweithio gyda phobl ifanc i fyfyrio ar eu datblygiad drwy Criw Celf fyddai cymharu darn o waith a wnaed ar ddechrau'r rhaglen gydag un a grëwyd ar y diwedd. Gallai'r artist arweiniol, arweinydd y rhaglen neu artist arall naill ai weithio gyda'r cyfranogwyr ifanc yn unigol neu mewn grŵp i adolygu, cymharu a myfyrio ar y ddau ddarn o waith gan lunio datganiad byr gyda'i gilydd ar sut mae eu techneg a'u dealltwriaeth wedi datblygu.

**Mewnbwn ac adborth gan artistiaid ac arweinwyr rhaglenni:** Mae'r rhan fwyaf o raglenni Criw Celf yn casglu adborth gan artistiaid ar y sesiynau maent yn eu rhedeg, i ddarparu trosolwg o'r rhaglen a'r gweithdai ac i helpu i ddeall beth sy'n gweithio'n dda. Byddai modd gofyn i artistiaid ymateb i gwestiynau mwy penodol ynghylch cynnydd y cyfranogwyr, sut mae eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn datblygu, a'r gwydnwch a'r dyheadau sydd wedi eu meithrin. Dylid sicrhau bod yr artistiaid yn ymwybodol o'r gwerthusiad ac o'r canlyniadau allweddol mae Criw Celf am eu cyflawni. (Nid oes offeryn penodol wedi ei ddatblygu ar gyfer sut dylid casglu adborth gan artistiaid. Gallai pob rhaglen benderfynu sut i wneud hyn, ond dylid meddwl am y ffordd orau i gasglu adborth gan artistiaid, a sut byddai hyn yn cael ei fwydo i mewn i'r adrodd terfynol.)

**Mewnbwn ac adborth gan rieni:** Mae rhai rhaglenni Criw Celf eisoes yn casglu sylwadau gan rieni. Mae hon yn ffynhonnell ychwanegol o dystiolaeth ddefnyddiol. Gellir nodi sylwadau gan rieni, casglu e-byst ganddynt, neu fabwysiadu ymagwedd fwy strwythuredig drwy ddanfon e-bost gyda thri neu bedwar cwestiwn allweddol neu arolwg byr (Gweler Offeryn 9 Tudalen 17)

Mae adran 5 yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch y gwahanol offer sydd i'w defnyddio i gasglu adborth gan wahanol bobl.

## 4. Pryd? Cynllunio ar gyfer monitor a gwerthuso

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dangosyddion y byddwch yn chwilio amdanynt i dystiolaethu'r canlyniadau, ynghyd â pha wybodaeth sydd ei hangen gan bwy, a phryd a sut y byddai modd eu casglu.

| | Canlyniad | Dangosyddion | Tystiolaeth a gasglwyd |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau Craidd** | **Datblygu sgiliau a thechnegau artistig** | • Nifer y cyfranogwyr<br>• Nifer yr artistiaid a sefydliadau celfyddydol<br>• Yr artist/arweinydd yn adrodd bod sgiliau pobl ifanc wedi datblygu<br>• Myfyrwyr yn teimlo bod eu sgiliau wedi datblygu<br>• Yr athro yn adrodd bod sgiliau wedi datblygu<br>• Myfyrwyr yn dangos mwy o barodrwydd i archwilio ac arbrofi, i gymryd risgiau<br>• Sgiliau beirniadol a myfyriol pobl ifanc wedi eu datblygu | • Monitro'r prosiect ac offeryn data allbynnau a gwblhawyd<br>• Y myfyriwr – adolygiad cymharu hunan bortread ar ddechrau/diwedd y cwrs<br>• Arolwg/cyfweliad cloi gyda myfyrwyr<br>• Adborth gan yr artist<br>• Arolwg athro – diwedd y cwrs |
| | **Datblygu dealltwriaeth o yrfâu artistig** | • Nifer yr ymweliadau â stiwdios artistiaid<br>• Disgyblion yn dewis TGAU Celf a Dylunio/graddau'r cyfranogwyr<br>• Myfyrwyr yn adrodd eu bod yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd ei angen i fod yn artist<br>• Myfyrwyr yn adrodd eu bod am fynd ymlaen i astudiaeth celf/dylunio pellach | • Monitro'r prosiect ac offeryn data allbynnau a gwblhawyd<br>• Arolwg/cyfweliad cloi gyda myfyrwyr<br>• Yr arweinydd i holi ynghylch hynt cyn-fyfyrwyr |

| | Canlyniad | Dangosyddion | Tystiolaeth a gasglwyd |
|---|---|---|---|
| | | • Holi pellach yn dangos bod myfyrwyr wedi mynd ymlaen i astudiaethau/ gyrfâu pellach mewn celf neu ddylunio a/neu'r diwydiannau creadigol | |
| | **Datblygu partneriaethau** | • Nifer a math o bartneriaethau<br>• Ymateb yr athrawon i Criw Celf<br>• Adroddiad yr arweinydd/ artist | • Monitro'r prosiect ac offeryn data allbynnau a gwblhawyd |
| **Canlyniadau eilaidd** | **Cynyddu hyder mewn perthynas â'r celfyddydau gweledol** | • Yr artist/arweinydd yn adrodd bod ganddynt fwy o hyder yn eu gallu celf a'u hyder yn gyffredinol<br>• Myfyrwyr yn teimlo'n fwy hyderus am eu celf ac yn fwy hyderus yn gyffredinol<br>• Yr athro yn adrodd bod hyder wedi cynyddu | • Arolwg/cyfweliad cloi gyda'r myfyriwr<br>• Adborth artist<br>• Arolwg athro – diwedd y cwrs |
| | **Codi dyheadau mewn perthynas â'r celfyddydau gweledol** | • Nifer yr ymweliadau ag arddangosfeydd<br>• Myfyrwyr yn adrodd eu bod yn llwyddo i wneud pethau na fyddent wedi eu gwneud fel arall<br>• Myfyrwyr yn adrodd eu bod yn deall bod cyfleoedd ehangach ar gael nad oedd ganddynt gynt | • Monitro'r prosiect ac offeryn data allbynnau a gwblhawyd<br>• Arolwg/cyfweliad cloi gyda myfyrwyr<br>• Cipio cymhelliant/ ysbrydoliaeth rhwng cymheiriaid |

## 5. Sut? Yr offer monitor a gwerthuso

Mae'r adran hon yn nodi'r offer sydd i'w defnyddio i gasglu'r data a'r dystiolaeth.

### 5.1 Casglu allbynnau prosiect cyfan

*Offeryn 1: Offeryn Data Allbynnau Criw Celf Casglu'r niferoedd*

Cliciwch yma i weld y Daenlen Excel

I sicrhau bod pob prosiect Criw Celf ar draws Cymru yn casglu'r un allbynnau – nifer y bobl, artistiaid, gweithgareddau a phartneriaid – mewn ffordd gyson, dylai pob arweinydd rhaglen gwblhau offeryn casglu allbynnau Criw Celf ar ddechrau pob cwrs Criw Celf, ac ychwanegu ato wrth i'r cwrs fynd rhagddo. Mae'r offeryn Data Allbynnau yn daenlen ag iddi dair taflen waith:

- **Taflen waith 1: Allbynnau'r cyfranogwyr:** Yma dylid nodi manylion y cyfranogwyr yn rhaglenni Criw Celf unigol pob Rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm y cyfranogwyr fesul rhaglen e.e. Criw Celf, Portffolio, Codi'r Bar, ac ati, a blwyddyn oedran y cyfranogwyr unigol. Dyma hefyd ble dylid nodi manylion ynghylch nifer y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim. Yn amlwg ni fydd hyn yn berthnasol ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref. Hefyd dylid nodi manylion ynghylch nifer y cyfranogwyr o ardaloedd 'cymunedau'n gyntaf', ynghyd â manylion demograffig ar ryw, ethnigrwydd ac a yw'r cyfranogwr yn siarad Cymraeg.

- **Taflen waith 2: Allbynnau'r gweithgareddau:** Yma dylid nodi manylion yr artistiaid, gweithdai a dosbarthiadau meistr, ymweliadau ag arddangosfeydd ac orielau, ble mae arddangosfeydd o waith pobl ifanc wedi eu llwyfannu, megis ar-lein neu drwy gyhoeddiadau wedi eu hargraffu. Hefyd dylid cynnwys cyfanswm oriau gwaith yr artistiaid.

- **Taflen waith 3: Allbynnau'r partneriaid:** Yma dylid nodi manylion yr holl bartneriaid, yn ogystal â'r artistiaid, fu'n rhan o'r rhaglen. Hefyd dylid cynnwys nifer ac enwau'r ysgolion, colegau, awdurdodau lleol, sefydliadau celfyddydol a lleoliadau celfyddydol.



Becky Adams
Arddangosfa Gorwelion
Criw Celf Caerdydd

Darperir Offeryn Data Allbynnau Criw Celf ar ffurf taenlen Excel, a bydd yn cael ei e-bostio at bob partner yn ychwanegol i'r canllaw yma sydd wedi ei argraffu.

## 5.2 Y cyfranogwyr ifanc

Dylid defnyddio ystod o offer gwahanol i dracio'r newidiadau mae'r rhaglen Criw Celf yn eu sbarduno ar gyfer y bobl ifanc. Dylid sicrhau bod amser yn cael ei glustnodi yn y cwrs i gasglu adborth gan bobl ifanc er mwyn annog ymarfer myfyriol.

### 5.2.1 Cymariaethau ar ddechrau a diwedd y rhaglen

*Offeryn 2: Myfyrio ar waith ar ddechrau a diwedd y rhaglen*

Mae cymryd gwaith o ddechrau a diwedd y rhaglen a'u defnyddio i fyfyrio ar sut mae'r ddealltwriaeth o brosesau, techneg a chymhwysiad wedi newid yn offeryn defnyddiol. Dylai arweinydd y rhaglen/artist arweiniol adolygu'r gwaith yma gyda'r myfyrwyr, naill ai'n unigol neu ar y cyd, a thrafod sut maent yn teimlo bod eu gwaith wedi newid. Byddai modd ysgrifennu ymdriniaeth fer ar ddatblygiad /newid mewn techneg a dull gweithio. Byddai modd tynnu ar y rhain wedyn mewn astudiaethau achos y myfyrwyr (gweler Offeryn 7 tudalen 16) a'r adrodd cyffredinol (Gweler Adran 6).

*Offeryn 3: Y cais a datganiad yr ymgeisydd – dewisol ond gall fod yn ddefnyddiol wrth fyfyrio*

Fel rhan o'r broses ymgeisio dylid gofyn i ymgeiswyr nodi yn eu datganiad (os ydynt wedi cwblhau un) pam maent am fod yn rhan o Criw Celf a'r hyn maent yn gobeithio byddent wedi ei gyflawni erbyn diwedd y cwrs. Bydd y datganiadau yma ar gael wedyn i'w defnyddio fel rhan o'r broses fyfyrio ar ddiwedd y cwrs.

### 5.2.2 Myfyrdodau ar ddiwedd y cwrs

Yn sesiwn olaf y cwrs dylid gofyn i'r myfyrwyr fyfyrio ar y cwrs a sut maent wedi elwa ohono. Yn ddelfrydol dylid casglu data meintiol yn ogystal ag adborth ansoddol ysgrifenedig, llafar a/neu weledol. Mae sawl ffordd o wneud hyn:

- Arolwg (Gweler Offeryn 4 tudalen 13 am gwestiynau i'w cynnwys yn yr arolwg).
- Cyfweliadau un i un, neu mewn grŵp, yn ddelfrydol wedi eu recordio neu ar fideo (Gweler Offeryn 5 tudalen 15 am gwestiynau allweddol i'w gofyn).
- Mewn grŵp, gan ofyn i gyfranogwyr ysgrifennu eu hymateb ar ddarnau o bapur post-it ar y wal (Gweler Offeryn 6 tudalen 12 Y Targed - enghraifft o ymarfer grŵp i gasglu adborth ar wahanol elfennau o'r cwrs).
- Os oes digon o amser ac adnoddau, byddai ffilm neu fideo byr o gymorth i ddarlunio'r canlyniadau. Gall hyn fod yn dasg i'r myfyrwyr eu hunain ei gwblhau. Fe allai gynnwys pytiau ffilm a gymerwyd yn ystod y rhaglen.
- Dylid llunio tair astudiaeth achos o fyfyrwyr unigol o'r cyfweliadau (Gweler Offeryn 7 tudalen 16 am fformat astudiaeth achos).

### 5.2.3 Camau dilynol wedi cyfranogaeth yn y rhaglen gyntaf

Bydd olrhain cynnydd myfyrwyr wedi iddynt orffen eu cwrs Criw Celf cyntaf yn gam defnyddiol iawn wrth werthuso effaith tymor canolig a hirdymor y rhaglen. Mae rhai o bartneriaid Criw Celf wedi bod wrthi'n tracio myfyrwyr wrth iddynt symud ymlaen i astudiaeth bellach mewn coleg neu brifysgol. Hefyd mae rhai myfyrwyr yn symud ymlaen o un rhaglen Criw Celf i'r nesaf. Cadwch gofnod o gamau nesaf y myfyrwyr, o ran eu hastudiaethau a'u gyrfâu mewn celf weledol ac unrhyw lwyddiant arall ddaw i ran cyn-fyfyrwyr Criw Celf.  Cofiwch gynnwys y manylion yma yn yr adroddiad rhaglen i Gyngor Celfyddydau Cymru (Gweler Adran 6).

### 5.3 Adborth a mewnbwn gan artistiaid

Mae sawl Criw Celf eisoes yn gofyn i artistiaid fyfyrio ar, a nodi llwyddiant neu heriau eu sesiynau. Dylid gofyn i artistiaid nodi unrhyw newidiadau penodol sydd i'w weld mewn myfyrwyr unigol o ran eu datblygiad artistig, newid mewn hyder a dyhead o ran yr hyn sy'n bosib iddynt ei gyflawni.

### 5.4 Adborth a mewnbwn gan athrawon

Mae'n hanfodol casglu adborth gan athrawon ar ganlyniadau Criw Celf ar gyfer dysgwyr. Gwelwn hyn fel rhywbeth sy'n cyd-fynd ag ysbryd *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau - cynllun gweithredu ar gyfer Cymru*. Gall barn goladol athrawon ynghyd â barn artistiaid, sefydliadau celfyddydol a'r bobl ifanc eu hunain ganiatáu i ymarfer da Criw Celf gael ei rannu drwy'r rhwydweithiau a'r sianeli perthnasol gan gynnwys y Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg sydd newydd eu sefydlu. Bydd adborth gan athrawon hefyd o gymorth i ddangos yr effaith y mae Criw Celf yn ei gael ar gyflawniad myfyrwyr yn yr ysgol. Mae danfon e-bost at athrawon gydag arolwg byr neu gyfres o gwestiynau yn ffordd syml o gasglu adborth (Gweler Offeryn 8 tudalen 13 am gwestiynau). Bydd angen i chi benderfynu at ba athro y dylech ddanfon y cwestiynau. Gall hyn amrywio o ysgol i ysgol.

### 5.5 Adborth a mewnbwn gan rieni – dymunol ond dewisol

Mae rhieni mewn safle da i gynnig adborth ar sut mae hyder a dyheadau eu plentyn wedi newid (Gweler Offeryn 9 tudalen 17).



Gwaith gan gyfranogwyr Criw Celf Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin a ddangoswyd yn Oriel Mission

## 6. Coladu'r wybodaeth ac adrodd

Mae'r adroddiadau canlynol yn ofyniad adrodd **gorfodol** ar gyfer prosiectau Criw Celf sy'n derbyn cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Dylai'r partner darparu arweiniol ysgrifennu adroddiad gwerthuso (cyfanswm o 1,000 o eiriau) ar ddiwedd pob rhaglen.
- Cwblhau'r Offeryn Data Allbynnau Criw Celf.

Dylai'r adroddiad gynnwys y canlynol:

- **Crynhoad o'r allbynnau a'r canlyniadau** gan gynnwys disgrifiad cryno o'r rhaglen, nifer yr artistiaid, myfyrwyr a phartneriaid gymerodd ran a chrynhoad byr o'r canlyniadau allweddol.
- **Recriwtio** – sut aethpwyd at i wneud hyn, pa ysgolion dderbyniodd wybodaeth, gymerodd ran e.e. nifer yr ymgeiswyr. Beth ellid ei wneud yn well?
- **Disgrifiad byr o'r gweithgareddau** – beth weithiodd yn dda, beth ellid ei wneud yn well
- **Y partneriaethau** – sut mae'r partneriaethau yn gweithio gyda sefydliadau celfyddydol, ysgolion, ac ati.
- **Y canlyniadau ar gyfer y bobl ifanc.** Gan dynnu ar yr adborth a'r ffeithiau o arolwg a chyfweliadau'r bobl ifanc, arolwg athro, arolwg/sylwadau rhieni, adborth yr artist ac adolygiadau o'r hunanbortreadau, ysgrifennwch adran fer ar:
    - **Y canlyniadau craidd sy'n benodol i Criw Celf:**
        - Cynnydd yn ymarfer a sgiliau artistig y cyfranogwyr
        - Dealltwriaeth o yrfâu artistig
        - Dilyniant tu hwnt i'r prosiect – er enghraifft gwneud cais am le ar Gwrs sylfaen neu ddewis celf fel pwnc yn yr ysgol Uwchradd
    - Canlyniadau eilaidd:
        - Mwy o hyder yn y celfyddydau gweledol
        - Codi dyheadau mewn perthynas â'r celfyddydau gweledol a / dyheadau mwy eang

Dylid rhoi sylw i ganlyniadau craidd. Rhaid sefydlu meincnodau ar gyfer yr uchod ar ddechrau'r rhaglen er mwyn sefydlu a oes newid wedi digwydd a pha newid oedd hynny.

Dylai'r adroddiad gynnwys (o leiaf) 3 astudiaeth achos o bobl ifanc gan amlygu ystod o ganlyniadau o'r rhaglen ac arddangos rhywfaint o'r heriau a'r pwyntiau dysgu (am fformat astudiaeth achos gweler Offeryn 7 tudalen 16).

- **Casgliadau, pwyntiau dysgu ac argymhellion o ran gwelliannau**

Mae stori weledol Criw Celf yn hanfodol hefyd, felly ochr yn ochr â'r adroddiad hwn dylech gyflwyno delweddau a ffilmiau byr a grëwyd gennych yn ystod y rhaglen i gefnogi'r gwerthuso ac i helpu i ddangos beth yw'r canlyniadau.



Criw Celf yng Nghanolfan Grefft Rhuthun

## **Atodiad:** Offer Adborth Gwerthuso

*Offeryn 4: Arolwg myfyrio ar ddiwedd y cwrs (mae modd addasu cwestiynau'r arolwg i'w defnyddio mewn cyfweliadau grŵp a/neu unigol)*

**Rhaid** cwblhau arolygon ar wahân ar gyfer pob rhaglen Criw Celf a dderbyniodd gyllid Cyngor Celfyddydau Cymru. Dylech gynnwys cryhnoad o'r canfyddiadau / dadansoddiad yn eich adroddiad ysgrifenedig.

*Mae croeso i bartneriaid ail-ddylunio'r holiadur i'w wneud yn fwy deniadol ar gyfer pobl ifanc.... Fodd bynnag, mae'n bwysig cadw a defnyddio'r un cwestiynau. Mae'n bosib hefyd yr hoffech weithio gyda phartneriaid ac ysgolion i archwilio a fyddai fersiynau digidol o'r templed yn fwy addas a byddai modd creu'r rhain ar y cyd.*

**Myfyrdodau myfyrwyr Criw Celf ar ddiwedd y cwrs**

| | |
|---|---|
| Enw'r rhaglen Criw Celf: | |
| Rhanbarth Criw Celf: | |
| Dyddiad: | |
| Enw: | |
| Oed / Blwyddyn Ysgol | |

1. Pa dri gair fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio Criw Celf?

| 2. Mae bod yn rhan o Criw Celf wedi | Cytuno | I ryw raddau | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Fy helpu i ddatblygu fy sgiliau artistig | | | |
| Gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus ynglŷn âm gwaith celf | | | |
| Gwneud i mi fod yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd ei eisiau i fod yn artist | | | |
| Cynyddu fy nealltwriaeth o wahanol ddeunyddiau a thechnegau'r artist | | | |
| Gwneud i mi fod yn fwy tebygol o ddilyn gyrfa yn y celfyddydau | | | |
| Gwneud i mi fod yn fwy penderfynol o barhau gyda fy nghelf fel diddordeb | | | |
| Rhoi llawer o hwyl | | | |

Defnyddiwch y blwch sylwadau isod i ychwanegu at unrhyw rai o'r datganiadau uchod.

*Byddem yn cynghori partneriaid i gofnodi ymateb pob cyfranogwr ar daenlen gan gynnwys crynhoad o'r prif ganfyddiadau yn eich adroddiad rhaglen ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru.*

Mae fersiwn symlach ar gael ar gyfer cyfranogwyr cynradd Criw Celf sy'n debyg i holiadur Oriel Myrddin (ar y dudalen nesaf).


Oriel Myrddin Gallery

Dweud eich barn ar Criw Celf 2015-16

Diolch am fod yn rhan o Criw Celf 2015-16 yn Oriel Myrddin Gallery! Mae'r holiadur yma i'w gwblhau gan blant a rhieni i rannu eich barn!

Beth wnaethoch chi fwynhau fwyaf?

Beth oedd hoff weithdy?

Wnaethoch chi ddysgu rhywbeth newydd?

Beth oedd hynny?

Pa effaith gafodd y profiad yma ar eich gwaith celf?

O'r holl bethau wnaethoch chi, beth sy'n gwneud i chi deimlo fwyaf balch?

Pe gallech chi newid unrhyw beth, beth allem ni fod wedi ei wneud yn wahanol?

Diolch!

## *Offeryn 5: Cwestiynau allweddol i'w gofyn i gyfranogwyr ifanc mewn cyfweliadau myfyrio*

Beth oedd y pethau gorau ynglŷn â Criw Celf?

Beth oedd y pethau mwyaf heriol ynglŷn â Criw Celf?

Ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi newid yn ystod y cwrs? Os do, ym mha ffordd? {anogair: yn fwy hyderus ynglŷn â gallu artistig, mwy penderfynol o ddal ati?}

Ydych chi wedi cyflawni rhywbeth oherwydd Criw Celf na fyddech chi wedi ei gyflawni pe baech chi heb fod yn rhan o'r rhaglen? Eglurwch os gwelwch yn dda.


A ewch chi yn eich blaen i ddilyn mwy o gyrsiau celf y tu allan/ar ôl ysgol?

## *Offeryn 6: Targed Saethyddiaeth*

Cewch ddewis defnyddio'r offeryn yma ai peidio ond fe allai fod yn ddefnyddiol gyda grŵp o gyfranogwyr Criw Celf i gasglu adborth ar wahanol elfennau o'r cwrs. Rhowch fersiwn mawr o'r targed ar y wal a gofyn i gyfranogwyr osod sticeri neu ddarnau papur post-it arno i gofnodi eu teimladau a'u barn. Mae'n bosib defnyddio'r ymarfer yma i ysgogi trafodaeth bellach.

Y prif gwestiwn i'w ofyn yw: "Gan feddwl am eich amser gyda Criw Celf, beth yw eich barn chi am yr agweddau canlynol o'r cwrs/rhaglen?"

Mae'r targed yn addasiad o offeryn a gyflwynwyd yng Nghanllaw Gwerthuso Celfyddydau Gwirfoddol Cymru



## Offeryn 7: Fformat ar gyfer Astudiaeth Achos o waith Myfyriwr

**Rhaid** darparu **tair astudiaeth achos** ar gyfer pob ardal fel rhan o'r adroddiad ysgrifenedig.

Mae'n bosib y caiff yr astudiaethau achos yma eu defnyddio mewn dogfennau neu gyfryngau Cyngor Celfyddydau Cymru, felly gwnewch yn siŵr eich bod wedi derbyn caniatâd gan y myfyrwyr a'u rhieni i'w defnyddio yn y modd yma. A wnewch chi hefyd roi cefndir a chyflwyniad i'ch rhaglen er mwyn gosod yr astudiaeth achos yn ei chyd-destun ac amlygu'ch rhesymau dros ddewis pob astudiaeth achos benodol.

Diben darparu astudiaeth achos yw:

- Dangos yr effaith ar lefel unigol;
- Dod â'r rhaglen yn fyw (a symud tu hwnt i ystadegau);
- Darparu dealltwriaeth o ddyfnder y profiad ac effeithiolrwydd y gweithgareddau;
- Darlunio'r heriau, y pwyntiau dysgu a'r ymarfer da.

*Beth i'w gynnwys yn yr astudiaeth achos:*

*Enw'r rhaglen Criw Celf, enw'r rhanbarth, enw a grŵp blwyddyn/oed y myfyriwr.*

*Crynhoad byr o ba weithdai ac ymweliadau y cymerodd y myfyriwr ran ynddynt. Rhowch ddyfyniadau (yng ngeiriau'r myfyriwr) i ddisgrifio beth roeddent yn ei hoffi fwyaf, a'r canlyniad/canlyniadau pennaf iddyn nhw o fod yn rhan o Criw Celf.*

*Os yn bosib, defnyddiwch dair astudiaeth achos gyferbyniol i ganolbwyntio ar wahanol ganlyniadau.*

## Offeryn 8: Adborth athrawon ar ddisgyblion fu'n rhan o Criw Celf

**Rhaid** cwblhau arolygon athro ar gyfer pob rhaglen Criw Celf a dderbyniodd cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru. Dylech gynnwys cryhnoad o'r canfyddiadau /dadansoddiad yn eich adroddiad ysgrifenedig.

*Enw'r Athro:*

*Swydd:*

*Enw'r Ysgol:*

1. *Nifer y myfyrwyr gymerodd ran yn y rhaglen(nni) Criw Celf*
2. *Beth yw eich barn am raglen Criw Celf?*
3. *Beth am y broses ymgeisio a dethol? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau o ran gwelliant?*
4. *Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yng ngwaith celf y myfyrwyr neu eu hymagwedd at y pwnc yn yr ysgol? Os do, fedrwch chi roi enghreifftiau?*
5. *A yw myfyrwyr yn cyfeirio yn yr ysgol at bethau maent wedi eu gwneud mewn sesiynau Criw Celf?*
6. *Ydyn nhw'n defnyddio gwaith a wnaed yn ystod y rhaglen Criw Celf yn eu gwaith cwrs/gwaith portffolio?*
7. *Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw effeithiau eraill ar eich myfyrwyr o fod yn rhan o'r rhaglen(nni) Criw Celf? Er enghraifft effaith ar feysydd eraill o'u gwaith a'u bywyd ysgol megis ymddygiad, hyder neu ddyheadau.*
8. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau yr hoffech eu rhannu gyda ni am y rhaglen(nni) Criw Celf?*

## *Offeryn 9: Cwestiynau ar gyfer y rhieni*

**Rhaid** cwblhau arolygon rhieni ar gyfer pob rhaglen Criw Celf a dderbyniodd cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru. Dylech gynnwys crynhoad o'r adborth yn eich adroddiad ysgrifenedig. Dylech gynnwys datganiad cyd-destunol byr am y rhaglen y bu plentyn/plant y rhiant yn rhan ohoni yn yr arolwg. Cofiwch ddiolch hefyd i'r rheini am eu cefnogaeth.

*Awgrymwn eich bod yn defnyddio holiadur Oriel Myrddin ar gyfer rhieni plant ysgolion cynradd. Cwestiynau posib i rieni plant hŷn fyddai:*

1. *Beth yw eich barn chi am Criw Celf?*

2. *Beth fu'r peth gorau ynglŷn â Criw Celf ar gyfer eich plentyn chi?*

3. *Ddaethoch chi neu'ch plentyn ar draws unrhyw anawsterau ymarferol gyda'r rhaglen?*



Criw Celf Powys. Cyfranogwyr yn gweithio gyda'r arlunydd Catrin Webster yn Oriel Davies

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk